**YSGOL GYNRADD LLANDEGFAN**
**LLANDEGFAN, YNYS MÔN, LL59 5UW**

Ffôn/Tel: 01248 713431
Ebost/Email: pennaeth.llandegfan@ynysmon.gov.uk
Safle'r Rhyngrwyd/Website: http://ysgolllandegfan.cymru/index.html
Pennaeth / Headteacher: Mr D Hood

Dyddiad: 4/9/17

Annwyl Rieni / Gwarchodwyr,

Hoffwn ddechrau drwy groesawu pawb yn ôl i Ysgol Llandegfan yn dilyn y gwyliau Haf. Fel yr ydych yn ymwybodol, cefais fy mhenodi fel Pennaeth yr Ysgol o Fedi'r 1af, 2017. Mae'n fraint ac yn bleser gennyf gael bod yn rhan o'r Ysgol a'r gymuned agos hon. Gobeithiaf, gyda'n gilydd y gallwn barhau i ddatblygu'r Ysgol er gwell.

Deallaf mai nid dros lythyr yw'r ffordd orau i gyflwyno fy hun i chi, ac felly hoffwn eich gwahodd i fy nghyfarfod yn Neuadd yr Ysgol, nos Lun nesaf (11/9/17 am 6yh) ar gyfer cael cyfarfod wyneb yn wyneb ac i mi drafod ychydig faterion gyda chwi ar ddechrau'r flwyddyn addysgol hyn. Bydd cyfle hefyd, wrth gwrs i chwithau ofyn cwestiynau wrthyf mewn modd anffurfiol a hwylus.

I orffen, hoffwn ddymuno yn dda i'n holl ddisgyblion eleni ac rwyf yn ffyddiog y cawn flwyddyn gwerth chweil.

Edrychaf ymlaen i'ch cyfarfod yr wythnos nesaf.

Yr Eiddoch yn Gywir

Mr D. Hood

Pennaeth